Cenhadaeth CCAUC, fel corff sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru, yw hyrwyddo addysg uwch ragorol o safon ryngwladol yng Nghymru er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac y tu hwnt.

I gyflawni ein cenhadaeth, rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth effeithiol i'n rhanddeiliaid a bod ein gweithrediadau mewnol a'n perthnasoedd â'r sector addysg uwch yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allanol eraill yn cael eu cynnal gan gyfathrebiadau clir, hygyrch a strategol.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd ein gwasanaeth, a pha mor dda y mae ein perthnasoedd yn gweithio, comisiynodd CCAUC ei arolwg cyntaf erioed o randdeiliaid a phartneriaid yn yr hydref 2007.

Pwrpas yr arolwg annibynnol hwn oedd casglu barn am y gwasanaethau a ddarparwn a'n perthnasoedd â chyrff eraill.

Roedd hyn yn cynnwys adborth am:

- gwybodaeth, ymwybyddiaeth a safbwyntiau pobl am CCAUC
- canfyddiadau am rôl CCAUC
- canfyddiadau am ansawdd y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir gan CCAUC
- cysylltiadau ac ymwneud â staff CCAUC
- effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu CCAUC
- canfyddiadau am effeithiolrwydd y perthnasoedd rhwng CCAUC a'n partneriaid a rhanddeiliaid allweddol
- meysydd blaenoriaethol lle mae angen gwneud gwelliannau

Gan mai hwn yw'r arolwg cyntaf i CCAUC ei wneud, ni allwn ddweud dim eto am gynnydd yn y meysydd hyn. Ond gallwn gymharu ein "sgôr cymeradwyaeth" gyffredinol â sgôr cyrff cyllido addysg uwch eraill y DU, drwy gyfeirio at eu harolygon cyffelyb diweddaraf hwy, er bod maint y samplau'n amrywio cryn dipyn.

Mae ein sgôr cymeradwyaeth o 74% yn debyg i'r 72% a gafwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban. Sicrhaodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr sgôr cymeradwyaeth o 76% yn ei arolwg cyntaf; mae hyn bellach wedi codi i 84%.

Mae'r canlyniad hwn, a llawer o'r adborth mwy manwl sydd wedi dod i'r amlwg, yn galondid i ni. Mae llawer o fodlonrwydd gyda'r gwaith a wnawn, o ganlyniad i waith caled ac ymdrechion ein tîm bach ond proffesiynol o staff. Ond mae'n glir hefyd y gallwn wella ein systemau a'n ffyrdd o weithio er mwyn dod yn fwy effeithiol a sicrhau bod mwy o'n partneriaid yn gyson fodlon â'r gwaith a wnawn.

Byddwn yn gwrando ac yn gweithredu ar unrhyw bryderon sydd gan ein partneriaid mewn perthynas â'u perthnasoedd â ni. Mae gennym wersi i'w dysgu ynghylch sut i sicrhau eu bod yn fwy bodlon ar y lefel o wasanaeth a ddarparwn. Ond deuwn i'r

casgliad o'n harolwg fod angen i ni egluro ein rôl yn well mewn perthynas â'r cyrff eraill y rhyngweithiwn â hwy. Rydym wrthi'n datblygu strategaeth i gyflawni hyn. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth a fydd yn ein helpu i wella ein rhyngweithio â'r sefydliadau AU – wyneb yn wyneb a thrwy wybodaeth a cheisiadau cliriach sydd â ffocws gwell.

Yn olaf, mae gennym gynlluniau i wella ein proffil ni a phroffil AU yng Nghymru yn y cyfryngau, ac i wella ein gwefan a'n newyddlen.

Roger Thomas

Cadeirydd, CCAUC

Mehefin 2008